# Enw'r Ysgol: Morfa Nefyn

| Addysg Grefyddol |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cyson dda mewn gwersi Addysg Grefyddol gyda nifer dda yn gwneud cynnydd rhagorol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgybllion yn cofio eu dysgu blaenorol yn dda ac yn caffael gwybyddiaeth a medrau newydd am nodweddion Addysg Grefyddol yn effeithiol.
- Gall y plant ddweud gweddi o'r frest cyn ysgrifennu gweddiau addas.
- Maent yn abl iawn i esbonio rhesymau am nodweddion moesol yn ystod y gwersi gan ddangos gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch yn dda iawn.
- Gall y plant siarad yn hyderus am eu crefydd ac esbonio y pwrpas o addoli.
- Yn sgil dysgu am reolau yn yr ysgol, roedd bron pob plentyn yn abl i drafod rheolau y 'cartref' yn hyderus ac yna gweithio yn ddychmygus i feddwl am reolau eu hunain yn y 'cartref'. Cofnodwyd y gwaith ar fformat poster TgCh.

**Materion i gael sylw**

Parhau i ddod ac agweddau o Addysg grefyddol i sylw'r plant yn rheolaidd ar lawr y dosbarth.
Parhau i astudio crefyddau eraill trwy themâu amrywiol.
Parhau i roi amrywiaeth o dasgau diddorol mewn gwersi Addysg Grefyddol.

| Rhagorol | | Da | * | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae gan athrawon yr ysgol wybodaeth dda am grefydd y Cristion ac ymchwilir mewn llyfrau gwybodaeth a gwefanau amrywiol i ddarganfod am grefyddau eraill.
- Gwahoddwyd ymwelwr o dras ethnig ym Medi 2015 i esbonio crefydd 'Hindwiaeth' gyda'r plant. Yn sgil hyn bu i'r plant gymharu crefydd y Crisition a chrefydd Hindw trwy thema y dosbarth.
- Dengys bod athrawon yn cyflwyno gwersi bywiog a chyfoes sydd yn hywryddo parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy waith thema amrywiol. Defnyddir arteffactau i sbarduno'r plant, a gwneir hynny yn effeithiol.
- Addysgir storiau a phynciau cyfoes trwy ddulliu o chwarae rol, gwersi llafar a TgCH. O ganlyniad, mae'r plant yn llawn brwdfrydedd a'u dealltwriaeth o'r maes/pwnc yn dyfnhau.
- Trwy themau y dosbarth , bydd ardal arbennig yn cael eu creu yn y dosbarthiadau e.e Bwrdd y seder(Iddewiaeth) lle bydd y plant yn chwarae rol ac yn ail greu sefyllfa yr Iddewon wrth ddathlu y Pasg 1af.
- Ymwelir a Choleg y Bala ddwy waith y flwyddyn i ddatblygu dealltwriaeth y plant o stori'r Pasg.
- Rhoddir sylw penodol i Addysg Grefyddol ar lawr y dosbarth trwy themâu amrywiol yn dymhorol.

**Materion i gael sylw**

Parhau i gyflwyno Addysg Grefyddol trwy ardaloedd y Cyfnod Sylfaen.
Ymweld ac adeiladau crefyddol fel y Mosg ym Mangor.

| **Rhagorol** | | **Da** | * | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae gwasanaeth boreol yn amrywiol ac yn gosod cywair cywir i'r plant ar ddechrau pob dydd yn yr ysgol.
- Trwy ein hamserlen dynn bydd y plant yn derbyn amrywiaeth o straeon h.y straeon o'r Beibl, straeon cyfoes a thasgau ymarferol.
- Bydd yr ysgol i gyd yn cyd ganu emynau traddodiadol a chyfoes yn rheolaidd sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth y plant o addoli ar y cyd.
- Mae naws ysbrydol arbennig i'n gwasanaethau boreol ac mae'r plant yn cyfrannu'n effeithiol trwy rannu teimladau a dweud gweddi o'r galon. Maent yn cael cyfleoedd i ddysgu crefyddau amrywiol er mwyn dangos parch ac ampathi at eraill.
- Bydd gwasnaethau amrywiol yn cael eu cynnig yn yr ysgol gyda ymwelwyr o'r tu allan yn dod i fyfyrio gyda'r plant, o ganlyniad mae gan y plant wybodaeth eang o addoli ar y cyd a pharchu eraill.
- Bydd yr ysgol yn cynnal gwasanaeth Diolchgarwch mewn adeiladau amrywiol y pentref e.e Eglwys Gatholig, Eglwys Fair a'r Capel. Mae hyn yn cyfoethogi dellatwriaeth y plant o fannau addoli yn y pentref ar defnydd ohonynt i addoli ar y cyd.
- Codir swm anrhydeddus yn flynyddol ar gyfer elusennau bob blwyddyn. Yn sgil hyn, mae'r disgyblion yn dangos empathi, parch, gofal a phryder at rhai llai ffodus na hwy e.e plant mewn angen (diwrnod a drefnir gan y Cyngor Ysgol) Cymorth Cristnogol (Masnach Deg/Fferm Affrica) casgliad yng ngwasanaeth Diolchgarwch, heb anghofio elusennau lleol fel Ty Gobaith, ac Ambiwlans Awyr .
- Dysgir y plant am gefndiroedd a gwerthoedd plant o ardaloedd a gwledydd eraill. Mae darpariaeth a chysylltiad yr ysgol ag Annos Affrica yn cael effaith ar y plant a dyfhnau eu dealltwriaeth.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Dim materion penodol

| **Rhagorol** | * | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Nia Wyn Williams (Pennaeth)

Dyddiad: 22/10/15